

Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa
A gynhaliwyd yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian Rooms – Canolfan Datblygu a Dysgu
Yr Wylfa ddydd Iau Hydref 7^{fed} 2010 am 3pm.

Yn bresennol:

A Morris Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa
N Gore	Cyfarwyddwr Safle Magnox North
G Vaughan	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
S Johnston	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
R Griffin	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
K Anderson	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
R Mrowicki	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
L P Davies	Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear
L Jones	Magnox North
M Thornton	Magnox North
J Milburn	Magnox North
F Brookes	Magnox North
T Roberts	Magnox North
A Smith	Horizon Nuclear Power
K Hegarty	Cyfarwyddwr Niwclear yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y Cyng W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng T Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng D Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng G W Roberts	Cyngor Sir Ynys Môn
J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
G Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
T Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
G Jenkins	Cwmni Cemaes Cyf
D Gadsby	
I Williams	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
A Hall	Dŵr Cymru
J Honey	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
J Tripp	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
R I Williams	FUW
J C Jones	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
S Roberts	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
K Hughes	Capita
T Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion yr Wylfa
S Anglesey	
M O'Hara	Cyn-weithiwr yr Wylfa sydd wedi ymddeol
D Cartwright	

Hefyd yn bresennol:

H M Hughes Partneriaeth Adfywio Amlwch (Ysgrifennydd Cofnodion)
Cymen Cyfieithu ar y Pryd

1 CROESO A DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2527 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Hysbysodd A M Jones yr aelodau bod yr agenda'n cynnwys cyflwyniad awr o hyd gan yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear (NDA) a fyddai'n cael ei ffilmio at ddibenion staff a gofynnodd i'r aelodau beidio â holi unrhyw gwestiynau yn ystod y cyflwyniad nes y bydd wedi gorffen. Roedd A M Jones am groesawu Arolygydd newydd yr NII, L P Davies oherwydd bod yr Arolygydd blaenorol, D Simister wedi derbyn swydd newydd. Roedd A M Jones am ddymuno'n dda i D Simister ar gyfer y dyfodol a diolchodd iddo am yr holl waith y mae wedi'i wneud i'r Wylfa ac roedd hefyd yn dymuno'n dda i L P Davies yn ei swydd newydd. Dywedodd A M Jones bod R Griffin, Rheolwr Cyswllt Rhanddeiliaid y Safle hefyd yn gadael, ond y byddai'n rhoi manylion pellach yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

2528 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan J Jones (Llywodraethwr Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch).

2 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 3^{ydd} MEHEFIN 2010

2529 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng K Hughes; eiliwyd gan y Cyng W T Hughes.

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

2530 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

4 DERBYN ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y SAFLE

2531 Anfonwyd adroddiad y Cyfarwyddwr gyda'r agenda cyn y cyfarfod.

2532 Roedd N Gore yn awyddus i hysbysu'r aelodau ynglŷn â sefyllfa estyn oes yr Wylfa. Mae'r Wylfa'n ceisio sicrhau estyniad tan 2012 ac mae'r holl wybodaeth a'r achosion diogelwch wedi'u cyflwyno ar amser neu cyn amser.

- 2533 Esboniodd N Gore bod angen sicrhau caniatâd ar gyfer estyn oes gan yr NII a'r Adran ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd (DECC). Esboniodd ymhellach bod yr Wylfa wedi derbyn llythyr cymeradwyo gan DECC a'u bod yn dymuno diolch i G Vaughan a Dr Sarah Johnston o'r NDA am eu cefnogaeth. Dywedodd bod yr NII wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol erbyn hyn a'u bod yn aros am lythyr ymateb ganddynt yn awr. Dywedodd bod y canlyniad yn edrych yn gadarnhaol a dywedodd bod hyn yn ganlyniad aruthrol i'r staff.
- 2534 Dywedodd N Gore bod yr Wylfa'n gweithio i adfer y 19 o elfennau tanwydd a oedd wedi'u difrodi, a oedd wedi bod yng Nghell Storio Sych 4 ers 1992. Ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle ym mis Mehefin 2010, mae 2 elfen bellach wedi'u hadfer yn llwyddiannus sy'n creu cyfanswm o 15 a 4 yn weddill i'w hadfer. Mae'r broses yn cael ei chynnal yn araf a gofalus. Pan fydd y 19 elfen danwydd wedi'u hadfer, bydd yn bosibl eu rhoi mewn fflasg a'u hanfon i Sellafield i'w hailbroseu.
- 2535 Mae'r cyfnod segur yn Adweithydd 2 wedi dod i ben erbyn hyn a derbyniwyd caniatâd gan yr NII i'w roi ar waith. Bydd Adweithydd 2 a'r 2 dyrbin yn dechrau gweithio eto gyda'r gwaith yn dechrau dros y penwythnos. Bydd posibilrwydd o symud dyddiad dechrau'r cyfnod segur i fis Awst y flwyddyn nesaf, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau hyd yma.
- 2536 Disgrifiodd N Gore y prif gyflawniadau yn yr adroddiad a dywedodd bod holiaduron 'Llunio'r Dyfodol' yn cael eu dosbarthu rhwng safleoedd Trawsfynydd a'r Wylfa er mwyn sicrhau arian economaidd cymdeithasol o £4.2m i Ogledd Cymru.
- 2537 Esboniodd N Gore bod sesiynau meithrin tîm yr Wylfa'n fwy seiliedig ar gyfrifoldeb corfforaethol a oedd yn cynnwys cefnogi unrhyw weithgareddau cymunedol. Mae'r polisi meithrin tîm hwn wedi derbyn cydnabyddiaeth fel polisi effeithiol ac mae'r Wylfa wedi ennill 'Gwobr Tîm Gofal Busnes yn y Gymuned.'
- 2538 Dywedodd N Gore bod cyfradd yr achosion diwrnod i ffwrdd wedi cynyddu o ganlyniad i ddamwain colli amser ar ôl i aelod o staff lithro ar lawr gwlyb. O ganlyniad i ddamwain angheuol yn Heysham 1, roedd yr Wylfa wedi trafod y digwyddiad hwn ac roeddent wedi sicrhau bod yr holl ragofalon cywir ar waith er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn digwydd ar safle'r Wylfa. Esboniodd hefyd y byddai ymarferion diogelwch ac ymarferion yr NII yn cael eu harddangos ar y safle bob wythnos hyd at fis Tachwedd.
- 2539 Nid oedd yr Wylfa wedi llwyddo i gyrraedd y targed cynhyrchu allbwn ac roeddent yn gobeithio cyrraedd y targed dros y penwythnos. Nid oedd unrhyw broblemau'n gysylltiedig â gorsaf bŵer ddŵr Maentwrog.

- 2540 Mae'r safle'n cyflogi 641 o weithwyr amser llawn ar hyn o bryd, sy'n cynnwys 7 ym Maentwrog; disgwylir i'r ffigurau hyn barhau'n ddigyfnewid os rhoddir caniatâd i estyn oes. Ymunodd 36 o bobl ar Leoliadau Haf ar y safle ar gyfer lleoliadau gwaith o hyd at 8 wythnos. Dywedodd N Gore bod cael y bobl ifanc hyn ar y safle'n chwa o awyr iach a'u bod wedi gwneud gwaith gwych. Roedd graddedigion Magnox North wedi cynllunio gemau gwyddonol ar gyfer stondin yr Wylfa yn Sioe Môn. Roedd yr Wylfa wedi dysgu llawer gan y bobl ifanc hyn ac yr oeddent hwy hefyd wedi cael profiad gwych yn gweithio yn yr Wylfa.
- 2541 Mae'r Wylfa'n parhau i gysylltu â Horizon Nuclear Power ynglŷn â'r posibilrwydd o ddatblygu adeilad newydd a chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Bentref Cemaes ynglŷn â gwerthiant arfaethedig Wylfa Head i Horizon Nuclear Power.
- 2542 Dywedodd N Gore y gall 3 asiant ynni ddarparu dyfodol arwyddocaol i Fôn. Gall yr Wylfa, drwy estyn ei oes, ddarparu gwaith i'r ynys; Horizon gyda'r posibilrwydd o adeilad newydd a gwaith hefyd; a'r Grid Cenedlaethol drwy gael trydan o'r ynys.
- 2543 Roedd Dirprwy Gyfarwyddwr y Safle, S Law wedi cwrdd â'r Anrhydeddus Cheryl Gillan, yr Ysgrifennydd Gwladol, a oedd wedi mynegi'i chefnogaeth i bŵer niwclear.
- 2544 Esboniodd N Gore bod Magnox North a Magnox South yn ddau gwmni unigol, fodd bynnag, penderfynwyd y byddant yn cyflwyno cais ar y cyd gan greu un endid o'r enw Magnox Cyfyngedig.
- 2545 Roedd S Anglesey wedi holi ynglŷn â materion trafndiaeth gyda'r adeilad newydd. Esboniodd A Smith o Horizon Nuclear Power y byddant yn cynnal arddangosiadau am bythefnos ym mis Tachwedd a fydd yn cael eu hysbysebu yn y wasg ac roedd yn annog pobl i'w mynychu.
- 2546 Holodd T Conway faint o gontractwyr a oedd wedi'u cynnwys yn y ffigurau staff. Esboniodd N Gore bod yna tua 100 o gontractwyr a 40 o staff asiantaeth. Gofynnodd T Conwy faint o gontractwyr ychwanegol oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod segur. Atebodd N Gore bod rhai cannoedd o gontractwyr wedi ymuno yn ystod y cyfnod segur.
- 2547 Diolchodd A M Jones i N Gore am yr adroddiad cynhwysfawr a'r holl waith caled a wnaed i sicrhau'r estyniad oes.

5 DERBYN ADRODDIAD CADEIRYDD Y GRŴP RHANDEILIAID SAFLE

- 2548 Rhoddodd A M Jones grynodedb byr o Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

2549 Esboniodd A M Jones ei fod ef a'r Dirprwy Gadeirydd, J H Jones wedi mynychu cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA ar 21-22^{ain} Medi 2010.

6 NEWYDDION DIWEDDARAF YR AWDURDOD DIGOMISIYNU NIWCLEAR

2550 Dosbarthwyd copi o'r newyddion diweddaraf cyn y cyfarfod ac amlygodd G Vaughan rai o'r prif faterion a gyflwynwyd yn adroddiad briffio'r NDA.

2551 Esboniodd G Vaughan bod yr NDA wedi lansio ymgynghoriad 12 wythnos ar ei Strategaeth ddrafft ddiweddaraf ar 1^{af} Medi. Mae rhanddeiliaid wedi cael cyfle i ddylanwadu ar y Strategaeth arfaethedig gyda sylwadau, a bydd angen diweddarau'r Strategaeth bob pum mlynedd.

2552 Mae'r NDA wedi cyhoeddi Strategaeth y DU ar gyfer Rheoli Gwastraff Ymbelydrol Soled Lefel Isel (LLW) o'r Diwydiant Niwclear. Mae'r NDA, mewn cydweithrediad â Magnox North, Magnox South a Sellafield Cyf, wedi cyhoeddi fersiwn diwygiedig arall o Raglen Weithredu Magnox.

2553 Yn y misoedd diwethaf, agorwyd cyfleuster storio modern ar gyfer gwastraff niwclear lefel isel Prydain, o'r enw Vault 9, ar safle'r NDA ger Drigg yng Nghymbria.

2554 Dywedodd G Vaughan wrth y grŵp bod Cyfarwyddwr Gweithredol yr NDA, Richard Waite wedi'i benodi i swydd newydd, Rheolwr Gyfarwyddwr Niwclear Masnachol CH2M HILL, Ewrop a'r Dwyrain Canol.

2555 Esboniodd G Vaughan bod dau gonsortiw wedi cyflwyno ymatebion i'r holiadur cyn cymhwyso yn y gystadleuaeth i fod yn Rhiant Gorff Dounreay.

2556 Dywedodd G Vaughan bod yr Wylfa, Oldbury a Maentwrog wedi cynhyrchu'r lefelau uchaf erioed o gyfansymiau trydan yn y 12 mis diwethaf sy'n gyflawniad aruthrol.

7 ADRODDIAD AROLYGYDD AROLYGIADAU NIWCLEAR EM

2557 Anfonwyd copi o'r adroddiad cyn y cyfarfod.

2558 Cyflwynodd L P Davies ei hun i'r grŵp fel Arolygydd Safle newydd yr NII ar gyfer yr Wylfa. Rhoddodd ddisgrifiad o brif weithgareddau'r adroddiad a dywedodd bod nifer o arolygiadau wedi'u cynnal yn ystod cyfnod segur Adweithydd 2 er mwyn sicrhau ei ddiogelwch a chyhoeddwyd caniatâd dechrau ar 17^{eg} Medi.

2559 Esboniodd L P Davies bod yr NII yn parhau i drafod ei gynigion ar gyfer estyn oes gyda'r Wylfa; fodd bynnag ni allai ddarparu llawer o fanylion am y canlyniad.

- 2560 O ran materion nad oeddent yn faterion arferol, gofynnodd J H Jones a oedd yna unrhyw oblygiadau'n gysylltiedig â'r sychwr am nad oedd wedi'i gymeradwyo. Esboniodd N Gore nad oedd gan y deunydd yn y cyflenwad sychu aer unrhyw beth i'w wneud â'r adweithydd. Roedd y cyflenwr wedi newid manylion y sychwr a dylid bod wedi gwirio hyn, yna cynhaliodd yr Wylfa ymchwiliad priodol i hyn, a gwardwyd y sychwr heb ei gymeradwyo fel gwastraff arferol.
- 2561 Gofynnodd T Conway a oedd y mater ynglŷn â pheipen ddŵr TLSE yn gamgymeriad gwaith neu'n gamgymeriad dynol, ac atebodd N Gore mae camgymeriad dynol oedd hyn.

8 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD GYMDEITHASOL YR WYLFA

- 2562 Esboniodd J H Jones bod y grŵp wedi cyfarfod ar Mai 25^{ain} eleni ac nid oedd ganddynt lawer o newyddion, fodd bynnag mae ceisiadau wedi'u derbyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 14^{eg} 2010.

9 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN IS-GRŴP GWASTRAFF YR WYLFA

- 2563 Dywedodd A M Jones wrth y grŵp nad oedd ganddo lawer i'w gyhoeddi. Ychwanegodd J H Jones bod y grŵp wedi cael cyfarfod defnyddiol lle cafodd meini prawf eu llunio er mwyn symud ymlaen.
- 2564 Esboniodd M Thornton bod Sarah Allen wedi cymryd secondiad a bod oedi wedi bod gyda'r trafodaethau a'r cyswllt.
- 2565 Holodd S Anglesey ynglŷn â chyfyngiadau a phroblemau amser. Esboniodd J H Jones y bydd cofnodion yr is-grŵp hwn yn cael eu cyhoeddi wrth iddo ddatblygu.

10 STRATEGAETH DDRAFFT, CYFLWYNIAD A SESIWN HOLI AC ATEB YR AWDURDOD DIGOMISIYNU NIWCLEAR

- 2566 Diolchodd R Mrowicki i'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle am y gwahoddiad a chroesawodd K Anderson a oedd wedi'i benodi i rôl flaenrol R Griffin. Esboniodd R Mrowicki mai diben y cyflwyniad hwn oedd rhoi trosolwg byr o'r ddogfen a'i bod yn gyfle i unigolion roi eu sylwadau. Dywedodd bod y codau lliw gyda'r prif themâu ar y sleidiau'n cyferbynnu â'r codau lliw yn y ddogfen er mwyn ei gwneud yn haws i unigolion ei deall. Esboniodd bod y ddogfen yn gosod cyfeiriad i'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear, fodd bynnag, nid yw'n rhoi manylion ynglŷn â phryd y bydd gweithgareddau'n digwydd. Dywedodd R Mrowicki hefyd y byddai yna gwestiynau drwy'r cyflwyniad sleidiau, er mwyn ysgogi safbwyntiau pobl am y Strategaeth ddrafft.

- 2567 Ar ôl y cyflwyniad, esboniodd R Mrowicki y byddai'r cyfnod ymgynghori'n cael ei gynnal rhwng 1^{af} Medi a 24^{ain} Tachwedd 2010 ac oes oedd gan unrhyw un sylwadau neu gwestiynau, roedd y manylion cyswllt ar flaen y ddogfen neu gallai unigolion fynd i wefan yr NDA a llenwi'r ffurflen ar-lein.
- 2568 Dywedodd T Conway nad oedd yn gwybod bod y ddogfen hon yn bodoli a bod y'r ymgynghoriad wedi dechrau ers 1^{af} Medi. Ymddiheurodd R Mrowicki ac esboniodd bod hyn wedi'i gyhoeddi ar y wefan. Ymddiheurodd L Jones hefyd a dywedodd bod y ddogfen ar gael yn y cyfarfod heddiw am nad oedd ganddynt ddogon o gopïau i'w dosbarthu cyn y cyfarfod.
- 2569 Dywedodd S Anglesey bod y ddogfen hon yn bwysig er mwyn symud ymlaen a bod yna rai materion cymhleth iawn ond ei bod yn ddogfen angenrheidiol. Dywedodd R Mrowicki bod arian yn fater hollbwysig ac y byddai'n rhaid i gorff y llywodraeth ac arian y llywodraeth ddod ynghyd i lunio cyllideb bob blwyddyn. Esboniodd bod gan yr NDA gysylltiadau agos iawn gyda'r llywodraeth. Gofynnodd S Anglesey i ba raddau y gallai'r NDA newid y polisi. Dywedodd R Mrowicki y byddai'r Strategaeth yn dod yn bolisi ac ychwanegodd K Anderson bod angen edrych ar yr optimwm.
- 2570 Gofynnodd T Conway faint sy'n gyfyngedig. Esboniodd R Mrowicki bod yr NDA yn darparu cyngor i'r llywodraeth, ond y llywodraeth sy'n penderfynu ar y polisi terfynol. Y llywodraeth a oedd wedi cyflwyno'r ymgynghoriad ac roedd yn rhaid i'r NDA ei weithredu.
- 2571 Holodd S Anglesey ynglŷn â gwaredu tir ac esboniodd R Mrowicki bod yn rhaid i'r NDA ddilyn gweithdrefnau cymeradwy'r llywodraeth ac ychwanegodd G Vaughan y byddent yn cael eu gwerthu ar ôl cael eu rhoi ar y farchnad.
- 2572 Holodd J H Jones, mewn cysylltiad â'r broses ymgynghori, pe byddai angen eglurhad arnynt ar unrhyw beth, sut y byddent yn ceisio cael yr eglurhad hwnnw. Dywedodd R Mrowicki bod yna fanylion cyswllt ar glawr y strategaeth, os bydd unrhyw gwestiynau.
- 2573 Gofynnodd D Gadsby a oedd angen Strategaeth ar yr NDA ar gyfer llygredd morol. Cadarnhaodd R Mrowicki y byddai angen Strategaeth ar gyfer hynny am ei fod yn un o'r pynciau yn y Strategaeth. Mae gan yr NDA rwymedigaeth i gydymffurfio â chyfraith Ryngwladol a Chenedlaethol – i ddilyn rheoliadau a rheoli'r safle gyda thrwyddedwr y safle.
- 2574 Gofynnodd T Conway pam nad oedd yn bosibl ailgylchu'r deunyddiau cyllidol oherwydd roedd perchenogion tai yn gorfod gwahanu eu gwastraff. Dywedodd R Mrowicki wrth T Conway y dylai roi sylw ar hyn a phwysleisiodd unwaith eto mai rôl yr NDA oedd gwneud argymhellion.
- 2575 Diolchodd A M Jones i R Mrowicki am y cyflwyniad.

11 CYNIGION AMLINELLOL AR GYFER GRŴP CYSWLLT PROSIECT AR GYFER ADEILAD NEWYDD

- 2576 Ymddiheurodd A M Jones a chroesawodd K Anderson yn ffurfiol i'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle.
- 2577 Esboniodd A Smith yn fyr pam fod angen i Horizon Nuclear Power ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cysylltiad ag adeilad newydd. Mae Horizon Nuclear Power wedi dweud mai yn awr yw'r amser cywir i ddatblygu dau grŵp mewn cysylltiad ag adeilad newydd. Bydd y Gweithgor Statudol (GS) yn cynnwys trafodaethau lefel uchel a fydd yn hysbysu Horizon Nuclear Power ac yn darparu canllawiau iddynt. Dywedodd A Smith mai'r gobaith yw y bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal eleni. Bydd gan y Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) aelodau fel y Grŵp Rhanddeiliaid Safle presennol, ond bydd hefyd yn gallu gwahodd sefydliadau a grwpiau eraill hefyd. Unwaith eto, y gobaith yw y bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal eleni.
- 2578 Dywedodd A Smith bod Horizon Nuclear Power yn awyddus i roi llais i grwpiau cymunedol, yn ogystal â mynd i'r afael â'u pryderon, rhannu eu pryderon a'u syniadau gyda Horizon. Anfonir llythyrau at yr aelodau gyda'r manylion cyflawn yn y man. Yr oedd A Smith hefyd yn awyddus i annog aelodau ac unigolion eraill i fynychu'r arddangosiadau ym mis Tachwedd er mwyn rhannu syniadau.
- 2579 Holodd S Anglesey pwy oedd yn ariannu'r GCP. Dywedodd A Smith mai Horizon oedd yn ariannu'r grŵp. Esboniodd hefyd ei bod yn anodd cyfleu negeseuon i bobl ar yr amser cywir a cheisio osgoi dryswch. Ychwanegodd A M Jones mai dyma yw cefndir rhaglen ynni'r ynys. Ychwanegodd A Smith hefyd ei fod yn cael ei ddefnyddio i rannu canlyniadau megis traffig a thrafnidiaeth a rhoi negeseuon ar yr amseroedd cywir.
- 2580 Diolchodd A M Jones i A Smith a dymunodd y gorau i Horizon Nuclear Power ar gyfer y dyfodol.

12 SESIWN HOLI AC ATEB AGORED

- 2581 Gofynnodd T Conway a fyddai'n bosibl cynnwys copi o'r adroddiad ar ddefnydd dŵr trefi yn y cyfarfod nesaf.
- 2582 Gofynnodd aelod o'r grŵp a oedd rhyfel seibr yn y wasg yn atal y cynnig wraniwm, a yw'r Wylfa'n gweithredu ar system fewnol ddiogel ac a oeddent yn gallu gwrthsefyll ymyriadau cyfrifiadurol? Atebodd F Brookes bod y systemau cyfrifiadurol wedi'u hynysu a'u bod yn ddiogel.

13 UNRHYW FATER ARALL

2583 Dywedodd A M Jones bod R Griffin yn gadael yr NDA a'i fod yn dymuno diolch iddo am yr holl waith mae wedi'i wneud gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid a'i fod yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

14 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

2584 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16^{eg} Rhagfyr.

2585 Diolchodd A M Jones i bawb am fynychu'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 4:45pm.